Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Bae Penrhyn
Y Caban
Ysgol Glanwydden
Derwen Lane
Bae Penrhyn
Conwy
LL30 3LB

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/06/2014**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Bae Penrhyn mewn caban ar dir Ysgol Gynradd Glanwydden. Mae'n aelod cofrestredig o Fudiad Ysgolion Meithrin ac yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant ardal Bae Penrhyn yn Sir Conwy.

Mae'r cylch wedi ei gofrestru i dderbyn hyd at 26 o blant ym mhob sesiwn, a chânt gychwyn yn dair blwydd oed. Ar hyn o bryd, mae 23 o blant tair blwydd oed yn mynychu'r cylch, gyda 20 yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol. Mae pum plentyn pedair oed hefyd yn mynychu sesiynau'r prynhawn.

Saesneg yw prif iaith cartref mwyafrif helaeth y plant gyda dau blentyn yn unig o aelwydydd sydd ag un neu ddau riant yn siarad Cymraeg. Prif gyfrwng addysgu a dysgu'r feithrinfa yw'r Gymraeg. O'r plant a fynychir ar hyn o bryd, ychydig iawn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae staff y lleoliad yn cynnwys arweinydd, dirprwy arweinydd a phedwar cymhorthydd dysgu. Mae'r arweinydd wedi bod yn y swydd ers mis Medi 2013.

Arolygwyd y cylch ddiwethaf gan Estyn ym mis Mehefin 2008 a gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn Chwefror 2014.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Cylch Meithrin Bae Penrhyn yn dda oherwydd bod:

- ethos croesawgar a hapus;
- ymarferwyr yn ofalgar tuag at y plant;
- plant yn ymgartrefu'n gyflym;
- medrau cyfathrebu a rhifedd y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda;
- medrau cymdeithasol y rhan fwyaf yn datblygu'n dda; ac
- mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth briodol o ofynion y Cyfnod Sylfaen a'u bod yn cynllunio ac asesu'n effeithiol.

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella Cylch Meithrin Bae Penrhyn yn dda oherwydd bod:

- gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r cylch;
- ymarferwyr yn gweithio yn effeithiol fel tîm;
- gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau'r cylch a'r meysydd sydd angen eu gwella;
- ymarferwyr yn derbyn hyfforddiant priodol sy'n cael effaith gadarnhaol ar y plant;
- ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid; a
- bod y cyllid yn cael ei reoli'n ddarbodus.

## Argymhellion

A1 Codi hyder y plant wrth siarad Cymraeg

A2 Cynyddu’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant

A3 Darparu gwell cyfleoedd i ddatblygu medrau annibynnol y plant

A4 Ffurfioli cyfarfodydd staff

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau cyfathrebu rhan fwyaf y plant yn datblygu'n dda. Mae bron pob plentyn yn gwrando'n astud ar storïau a chyflwyniadau eraill yn ystod sesiynau dysgu, gan ymateb yn briodol. Mae'r mwyafrif yn cynnal sgyrsiau syml gyda chyfoedion ac oedolion gan ddangos peth caffael ar eirfa berthnasol yn eu mamiaith. Er enghraifft, maent yn siarad yn aeddfed wrth chwarae rôl yn y caffi a'r ganolfan arddio. Mae bron pob un yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau a chwestiynau yn y Gymraeg gan ddefnyddio geiriau unigol. Fodd bynnag, ychydig sy'n hyderus wrth gyfathrebu yn estynedig ar lafar yn y Gymraeg. Mae'r mwyafrif yn adnabod eu henwau mewn print. Mae'r mwyafrif yn ymarfer medrau ysgrifennu cynnar yn briodol trwy wneud marciau gan ddefnyddio paent, creonau, tywod a thrwy dynnu lluniau. Fodd bynnag, ychydig sy'n medru ysgrifennu eu henwau yn annibynnol.

Mae mwyafrif y plant yn medru cyfrif yn lled gywir i ddeg o leiaf, gan gysylltu symbol a rhif hyd at bump o leiaf. Gallant ddosbarthu gwrthrychau cyfarwydd mewn amrywiol ffyrdd, er enghraifft trwy liw neu siâp. Gall y rhan fwyaf adnabod ac enwi siapiau syml dau ddimensiwn yn gywir, a defnyddio'u medrau rhif yn briodol mewn gweithgareddau amrywiol ar draws y cwricwlwm. Mae llawer yn deall bod angen cyfnewid darnau arian wrth brynu gwrthrychau, ac mae'r rhan fwyaf yn adnabod lliwiau syml ac yn medru eu henwi'n gywir.

Mae unigolion yn dechrau datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sylfaenol yn briodol mewn sefyllfaoedd cyfyng. Maent yn rhoi cynnig ar reoli teclyn electronig yn hyderus, gan ddilyn cyfarwyddiadau gan oedolyn.

Mae medrau personol a chymdeithasol y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n dda drwy ystod o brofiadau gwerthfawr a ddarperir o fewn y cylch a'r gymuned gyfagos. Maent yn golchi eu dwylo heb gymorth, cymryd eu tro, rhannu teganau, ac ymateb i'r cyfrifoldebau syml a roddir iddynt yn aeddfed.

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn ymgartrefu'n gyflym yn y cylch. Maent yn ymddwyn yn dda, yn ffurfio perthynas briodol gyda'i gilydd a chydag oedolion ac yn barod i ofyn am gymorth pan fo angen.

Mae'r mwyafrif o blant yn arddangos brwdfrydedd tuag at eu dysgu, gan weithio'n gydwybodol ar dasgau am gyfnodau addas cyn dewis gweithgareddau eraill. Maent yn ymdrechu'n dda i weithio'n annibynnol pan gânt gyfle i wneud hynny. Mae hyder y mwyafrif yn datblygu'n effeithiol iawn. Maent yn barod iawn i ganu caneuon Cymraeg y maent wedi eu dysgu, yn unigol o flaen y plant eraill.

Mae'r mwyafrif o blant yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn synhwyrol ac ymarfer y corff yn rheolaidd er mwyn cadw'n iach. Maent yn deall pam mae angen golchi dwylo'n drwyadl fel rhan o raglen hylendid personol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Da

Mae ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol yn unol â gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen gan ddefnyddio fframweithiau'r awdurdod lleol. Mae ymarferwyr yn trafod anghenion unigolion yn briodol ac yn cynllunio'n effeithiol ar y cyd yn wythnosol. Mae hyn yn sicrhau darpariaeth briodol i gwrdd ag anghenion y plant ynghyd â'r defnydd mwyaf effeithiol o amser staff ac adnoddau'r cylch.

Mae'r cynlluniau wythnosol yn cynnig cyfleoedd priodol i ddatblygu medrau cyfathrebu, rhifedd, a medrau ehangach y plant o fewn ystod o themâu diddorol. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd a ddarperir i blant ddatblygu eu medrau TGCh ac i weithio'n annibynnol.

Cymraeg yw cyfrwng swyddogol y cylch, ac mae ymarferwyr yn ymdrechu'n dda i sgwrsio gyda'r plant yn yr iaith honno. Cynigia'r staff gyfleoedd yn rheolaidd i blant chwarae rôl, trafod eu gweithgareddau, canu a gwrando ar straeon a sgyrsiau yn y Gymraeg mewn sesiynau grŵp. Mae hyn yn ffordd effeithiol i ddatblygu a chyfoethogi iaith lafar Gymraeg y plant. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd iddynt ddysgu am draddodiadau a dathliadau Cymru yn effeithiol drwy weithgareddau fel dathlu dydd Gŵyl Dewi a Santes Dwynwen. Mae'r plant yn derbyn cyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau eraill drwy weithgareddau fel astudio'r flwyddyn newydd Tsieineaidd.

Gwna'r cylch ddefnydd effeithiol o'r gymuned leol drwy drefnu ymweliadau priodol â mannau diddorol fel Parc Eirias a'r ganolfan arddio leol. Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol yn yr ardd i ddatblygu dealltwriaeth y plant o'r angen i ofalu am yr amgylchedd a pharchu pethau byw. Mae'r profiadau hyn yn cyfoethogi'r ddarpariaeth ac yn addysgu'r plant am eu cymuned yn llwyddiannus.

## Addysgu: Da

Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o'r plant ac o'u hunain. Maent yn defnyddio amrywiol strategaethau er mwyn cyflwyno addysg ysgogol i'r plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o ofynion y Cyfnod Sylfaen ac mae'r holl weithgareddau a gyflwynir yn cydymffurfio'n effeithiol â'r egwyddorion hynny. Maent yn darparu cydbwysedd cynyddol rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion a rhai eraill lle mae plant yn arwain eu dysgu eu hunain. Mae'r ymarferwyr yn cwestiynu'n dreiddgar er mwyn canfod yr hyn mae'r plant yn ei ddeall neu wybod er mwyn cwrdd â gofynion dysgu'r plant fel unigolion neu grwpiau.

Mae trefniadau effeithiol ar waith i asesu ac olrhain cynnydd y plant. Mae ymarferwyr yn arsylwi'n fanwl ar y plant wrth eu gweithgareddau ac yn cofnodi eu cynnydd yn effeithiol, gan ddefnyddio'r wybodaeth er mwyn symud y dysgu ymlaen yn briodol. Mae'r cofnodion hyn yn cynnig darlun eglur o gyflawniad a chynnydd y plant yn y

chwe maes dysgu. Mae'r ymarferwyr yn canmol ymdrech y plant yn effeithiol er mwyn codi eu hyder ac yn rhoi sylwadau adeiladol ar lafar iddynt er mwyn gwella. Maent yn adrodd yn briodol i rieni ar gynnydd eu plant yn rheolaidd a throsglwyddir manylion cynhwysfawr am unigolion i'r ysgol gynradd wrth i'r plant drosglwyddo.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ymarferwyr yn ofalgar tuag at holl blant y cylch. Mae trefniadau effeithiol ar waith i gefnogi iechyd a lles y plant trwy weithredu'n effeithiol ar ystod o bolisïau a gweithdrefnau.

Hyrwydda'r ymarferwyr ddatblygiad personol y plant yn effeithiol drwy ystod o weithgareddau rheolaidd, sy'n ymwneud â rhannu a gofalu am eu hunain ac am eraill. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn effeithiol drwy straeon penodol a thrwy dynnu sylw'r plant at rai sy'n cymryd eu tro a rhannu, er enghraifft amser tocyn. Hyrwyddir gwerthoedd fel tegwch a dealltwriaeth o'r hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir yn effeithiol drwy'r gweithgareddau dyddiol.

Mae gan y cylch bolisi a gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant sy'n bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Yr arweinydd sydd â chyfrifoldeb am y maes hwn ac mae'r ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant perthnasol.

Darpara'r cylch yn briodol ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Defnyddia'r ymarferwyr ystod o strategaethau effeithiol i gwrdd ag anghenion yr unigolion hyn. Mae'r cylch yn defnyddio gwasanaeth asiantaethau arbenigol i gynorthwyo ymarferwyr i fynd i'r afael ag anghenion penodol. Mae cynlluniau addysg unigol ar waith ar gyfer yr unigolion sydd eu hangen. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn cael eu trafod gyda'r rhieni'n gyson.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos croesawgar a hapus yn bodoli yn y cylch, lle mae pob un yn parchu ei gilydd. Mae'n gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn fynediad cyfartal i'r holl brofiadau dysgu a ddarperir. Mae'r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn gweithredu'n briodol yn unol â'r wybodaeth honno. Defnyddia'r ymarferwyr strategaethau ymddygiad cadarnhaol sy'n cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu dealltwriaeth y plant o ymddygiad da.

Mae gan y cylch gyflenwad digonol o adnoddau dysgu o ansawdd da ac sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu ym mhob un o'r ardaloedd. Mae'r adeilad a'r safle yn ddiogel ac yn cynnig cyfleusterau pwrpasol. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r gofod dysgu sydd ar gael trwy drefnu ardaloedd dysgu penodol o fewn yr adeilad ac yn yr ardal allanol. Ceir arddangosfeydd deniadol o waith y plant, sy'n cefnogi eu dysgu ac yn rhoi bri ar eu hymdrechion.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r cylch sy'n cynnwys hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Llwydda i gyfleu'r weledigaeth honno'n effeithiol i bawb sy'n ymwneud â'r cylch. Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol fel tîm ac yn dangos ymrwymiad cryf i ddarparu addysg effeithiol i'r plant. Trwy drafod yn rheolaidd a chydweithio'n agos, maent yn datblygu'r blaenoriaethau gwella yn effeithiol ac yn ceisio cwrdd â gofynion pob unigolyn.

Mae cadeirydd y pwyllgor rheoli yn ymwelydd cyson ac yn cynnig cefnogaeth dda a her briodol i'r ymarferwyr. Mae'r pwyllgor rheoli yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn derbyn gwybodaeth gyson am ddatblygiadau pwysig. Mae rôl aelodau'r pwyllgor mewn prosesau arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella yn datblygu'n briodol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o'u rôl wrth herio'r ymarferwyr er mwyn sicrhau'r gorau i'r plant.

Mae prosesau rheoli perfformiad ar waith ar gyfer gwerthuso gwaith yr ymarferwyr. Mae hyn yn arwain at hyfforddiant penodol er mwyn eu galluogi i wneud eu gwaith yn effeithiol a'u datblygu'n broffesiynol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth glir o gryfderau'r cylch a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r drefn reolaidd o gynnal cyfarfodydd staff ac o gyd-gynllunio yn arwain at welliannau yn y profiadau a ddarperir i'r plant. Fodd bynnag, anffurfiol yw natur y cyfarfodydd hyn ar hyn o bryd.

Mae'r arweinydd wedi cynnal arfarniad priodol o waith y cylch ac wedi cofnodi hyn yn glir yn yr adroddiad hunanarfarnu. Mae cynllun gwella addas ar waith, gyda'i flaenoriaethau yn seiliedig ar ddeilliannau'r weithdrefn hunanarfarnu. Mae'r cynllun yn cynnwys arweiniad addas ar gyfer datblygu'r lleoliad ymhellach, gan nodi amser a chyfrifoldeb gweithredu a meini prawf llwyddiant clir.

Caiff agweddau ar y ddarpariaeth eu monitro'n rheolaidd gan athrawon ymgynghorol yr awdurdod addysg a swyddog datblygu'r Mudiad Meithrin. Mae meysydd i'w datblygu yn cael eu cytuno, a gweithredir strategaethau effeithiol sy'n gwella'r ddarpariaeth. Mae'r arweinydd yn cywain barn rhieni yn briodol trwy drafod gyda nhw'n rheolaidd a thrwy anfon holiaduron penodol atyn nhw. Caiff agweddau ar y ddarpariaeth eu trafod ymhellach gydag athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog datblygu'r Mudiad Meithrin er mwyn eu gwella'n gyson.

Mae'r ymarferwyr yn derbyn hyfforddiant priodol ar ystod o agweddau sydd wedi eu hadnabod yn flaenoriaethau iddynt. Er enghraifft, diogelu plant, cymorth cyntaf ac addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn ei dro yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer addysg a lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r cylch yn cydweithio’n agos gydag ystod o bartneriaid sy’n cyfrannu’n effeithiol at ansawdd y ddarpariaeth a datblygiad y plant.

Mae perthynas gadarn yn bodoli rhwng y cylch a’r rhieni. Darperir gwybodaeth berthnasol iddynt trwy sgyrsiau rheolaidd, llythyron, negeseuon e-bost, newyddlen a’r hysbysfwrdd a leolir yn y cyntedd. Maent yn gwerthfawrogi’r polisi drws agored a’r cyfleoedd rheolaidd i drafod datblygiad eu plant gyda’r arweinydd a’r ymarferwyr.

Mae gan y cylch gysylltiadau gwerthfawr gydag Ysgol Gynradd Glanwydden sy’n cynnig cyfleoedd buddiol i’r ymarferwyr a’r staff i gyd-drafod, rhannu adnoddau ac i’r plant ddefnyddio’r cyfleusterau fel yr ardd a’r buarth yn rheolaidd. Mae pennaeth a staff yr ysgol yn ymwelwyr cyson i’r cylch ac mae’r gweithdrefnau trosglwyddo yn effeithiol iawn. Mae’r trefniadau hyn yn hwyluso’r profiad pontio i’r plant wrth iddynt gychwyn yn eu hysgol newydd maes o law. Mae’r arweinydd a chadeirydd y pwyllgor rheoli yn aelodau o gorff llywodraethol yr ysgol a phennaeth yr ysgol yn aelod o bwyllgor rheoli’r cylch. Mae hyn yn sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y ddau leoliad.

Mae’r bartneriaeth adeiladol gydag athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog datblygu’r Mudiad Meithrin yn cynorthwyo gwaith y lleoliad i godi safonau ymhellach yn effeithiol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff adnoddau eu rheoli a’u defnyddio’n effeithiol. Mae lefel staffio briodol gan y cylch sy’n cydymffurfio ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac yn darparu’n effeithiol ar gyfer lles a datblygiad y plant. Caiff yr ymarferwyr eu lleoli a’u defnyddio’n gynhyrchiol. Mae gan y lleoliad gyflenwad da o adnoddau a gwneir defnydd llawn ohonynt. Mae’r adeilad a’r ardal allanol yn cael eu cynnal a'u cadw’n dda.

Mae gan yr arweinydd a swyddogion y pwyllgor rheoli presennol ddealltwriaeth glir o’r gyllideb ac mae penderfyniadau gwariant yn cael eu blaenoriaethu yn unol ag anghenion y cylch. Gwneir defnydd effeithlon o arian mae rhieni yn ei godi er mwyn ychwanegu at yr adnoddau. O ystyried y defnydd effeithlon o’r cyllid, a’r deilliannau mae'r plant yn eu cyrraedd, mae’r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 12 | 9<br>75% | 3<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 12 | 9<br>75% | 3<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 12 | 9<br>75% | 3<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 12 | 7<br>58% | 5<br>42% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 80% | 18% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 12 | 4<br>33% | 3<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 5 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 69% | 26% | 1% | 0% | | |
| Teaching is good. | 12 | 7<br>58% | 4<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 79% | 18% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 12 | 10<br>83% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 82% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 12 | 6<br>50% | 6<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 73% | 22% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 12 | 10<br>83% | 2<br>17% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 85% | 14% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 8 | 3<br>38% | 2<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 65% | 24% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 12 | 9<br>75% | 3<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 63% | 29% | 5% | 1% | | |

<table>
<tr><th></th><th>Number of responses<br>Nifer o ymatebion</th><th>Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf</th><th>Agree<br>Cytuno</th><th>Disagree<br>Anghytuno</th><th>Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf</th><th>Don't know<br>Ddim yn gwybod</th><th></th></tr>
<tr><td rowspan="2">I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem.</td><td>12</td><td>11<br>92%</td><td>1<br>8%</td><td>0<br>0%</td><td>0<br>0%</td><td>0</td><td rowspan="2">Rwy'n teimlo’n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.</td></tr>
<tr><td></td><td>80%</td><td>18%</td><td>1%</td><td>0%</td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="2">I understand the setting's procedure for dealing with complaints.</td><td>12</td><td>10<br>83%</td><td>2<br>17%</td><td>0<br>0%</td><td>0<br>0%</td><td>0</td><td rowspan="2">Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion.</td></tr>
<tr><td></td><td>62%</td><td>29%</td><td>3%</td><td>0%</td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="2">My child is well prepared for moving on to school.</td><td>11</td><td>6<br>55%</td><td>3<br>27%</td><td>0<br>0%</td><td>0<br>0%</td><td>2</td><td rowspan="2">Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol.</td></tr>
<tr><td></td><td>71%</td><td>23%</td><td>1%</td><td>0%</td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="2">There is a good range of activities including trips or visits.</td><td>12</td><td>8<br>67%</td><td>4<br>33%</td><td>0<br>0%</td><td>0<br>0%</td><td>0</td><td rowspan="2">Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.</td></tr>
<tr><td></td><td>62%</td><td>30%</td><td>4%</td><td>0%</td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="2">The setting is well run.</td><td>12</td><td>10<br>83%</td><td>2<br>17%</td><td>0<br>0%</td><td>0<br>0%</td><td>0</td><td rowspan="2">Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda.</td></tr>
<tr><td></td><td>82%</td><td>16%</td><td>0%</td><td>0%</td><td></td></tr>
</table>

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mr Huw Watkins | Arolygydd Cofnodol |
| Vanessa Bowen | Asesydd Cyswllt |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.  (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg.  Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |